# Glas

Bwletin misol
Llên natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Rhif 185
Gorffennaf 2023

**gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**



Iar morwyn dywyll
Alun Williams
27 Mai 2023

Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd
Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy **cymuned.llennatur@gmail.com**

CYMUNED Llên natur Cymdeithas Edward Llwyd
RHIF ELUSEN Cymdeithas Edward Llwyd 1126027

# Adar William Bulkeley (Rhan 3)



*Ysgythriadau o gyfnod William Bulkeley gan Thomas Bewick*

**Dyma ddiwedd erthygl Dewi Lewis am gofnodion adar William Bulkeley**

Nid gylfinir yn unig roedd William Bulkeley yn ei hela ond ceir cofnodion at giach a chwtiaid (S. *plovers*) hefyd;

"22d.July" (1736)- *"The Wind S.W. & S. blowing fresh, the sky clear & Sultry begun to make my hay into stacks, went in the Evening with Cousin Hen. Hughes to Cors y Ddafod; at Cors y Cilfaes & killed 4 Plovers & a snipe."*

Mae'n debyg bod tywydd oer mis Rhagfyr 1739 wedi effeithio ar ansawdd y giachod a'u gwerth i'w bwyta.

"31st.Dec" (1739) - *"The Wind E. blowing high & extream cold, & freezing continually, killed to day 3 snipes, which were already become so poor, that they were hardly worth ye useing."*

"24th.July" (1735) - *" The Wind W.S.W. blowing high, dark & cloudy in the Morning made a great Shower about 2 in ye Evening, some little afterward, went out a shooting with Cosen* [cousin] *Hen. Hughes. & Abr. Jones. brought home 5 Plovers"*

Roedd William Bulkeley yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o gwtiaid ac mae'n cyfeirio at ddwy rywogaeth gwahanol, sef cornchwiglen a chwtiad aur.

"Iith Feb" (1749.) - *"The Wind E. blowing fresh & cold, but sun shiny fair and dry all day, The Green Plovers or Lapwings had the Cry they used to have in the time of laying and hatching in the Month of March:"*

"March 3d." (1755) - *" The Wind W. calm, cloudy & dark & raining a small rain, but not cold till i0 in the morning: the rest of the day was dry: Paid 6d. for fish & 5d. for Wild fowl being a Mallard & 2 Golden Plovers."*

Yn ogystal a'r cofnodion uchod ceir sawl cofnod arall at gyffylog. Unwaith eto hela oedd y cymhelliad i'r cofnodi ac ar rai adegau fel y nodwyd eisioes, roedd yn cerdded cryn bellter;

*"Novr. 4th" (1738) - "The Wind E. very cold raw weather, but dry, went out a coursing with my Son, Son in Law, Mr. Hugh Owen of Penrhose the Counsellour, the Parson & Mr. Thomas Morris of Rhydgroes, with Some others to beat the bushes, & tho we walked at least 9 miles, could see but one hare, & that escaped, but we killed with our Guns two Wood cocks"*

*"18th.October" (1734) - "Made a very great shower of Hail and sleety rain this morning betwixt 6 & 7 the wind S. & continued to make severall showers all day long. till the Wind came about at last to N.W. when it rained very hard at the fall of Night, & afterwards about 9:……to day I saw the first woodcock this year,……."*

*"19th.October" (1734) - " it blew very hard about 3 this morning from N.W. & continued a great storm & very cold till 1 in ye Evening when the Wind came to N.& N.E. very cold still, but the Wind something allayed,………went out betwixt 4 & 5 this Evening with my Gun and my faithfull Dog Ranter and killed a Woodcock……"*

*"12th.Oct" (1737) - "The Wind N. cold & dry weather, with some showers of hail in the Evening, went out to day with my Gun with Cos. Hen. Hughes, flushed one Woodcock at Cae'r Mynŷdd ucha shott at him and missed him, the Dog Ranter putting him up at too great a distance, but being the first I saw this year I. let fly after him at a venture."*

**Gyda hedfaniad y cyffylog dyna ddiwedd ar gofnodion adar yn nyddiaduron William Bulkeley, Brynddu.**

# Twll mawr 19 Mai

**Beth yw'r rheswm dros y siap yma yn yr awyr heno tybed? Waunfawr, 19 Mai 2023 am 7.56yh**

**Anita Myfanwy**

*Strange clouds formation over Ynys last night, ten past eight, called a Fallstreak.* **Charles Rissbrook**

*Tonight's Mackrell sky* **Gwyneth Vaughan**

Tynnodd Gill Brown y llun hwn [gyferbyn] am 19.41 cyn clywed am y cwmwl-dwll a ymddangosodd yn iawn i Anita (cymdoges) 10 munud yn ddiweddarach. Dim ond wedyn wrth ail edrych ar y llun y sylweddolodd Gill bod y 'twll' i'w weld yn y gorllewin.

Criccieth 20.30. [Llun gyferbyn] **Justin Drawbridge**

Esboniad Panel Gwybodusion rhaglen Galwad Cynnar: "….lle mae dŵr yn oer iawn - o dan rhewbwynt ond dal yn hylif - a bod rhywbeth yn ei styrbio - awyren, gwynt, neu unrhyw beth - hyn yn achosi'r twll gan ei fod yn anweddu, neu troi yn rhew a diflannu." Dwi'n meddwl mai dyna oedd yr esboniad! Dwi'n siwr bod na bobl yn deall yn well na fi yma. Difyr. **Sian Elen Tomos**

*Fallstreak hole,* dwnim beth fyddai yn y Gymraeg **Paula Roberts**

Meddwl creu tudalen Wici (C.). Dydi'r term S. ddim yn gwneud lot o synnwyr! MAE yna dudalen Wiki (S.). Beth am 'cwmwl-dwll' neu 'cafwm' (o *cavum*). **DB**

**Mae'n ymddangos bod y cwmwl-dwll wedi agor tua 19.40 ynghanol cymylau traeth awyr rhwng ychydig ac wedi teithio o ardal Harlech a dros Arfon rhwng 20.00 a 20.30. Yn anffodus ni chafwyd amseroedd i fod yn fwy manwl. Roedd y cyd-destun yn wasgedd uchel sefydlog. Dyma'r sefyllfa meteorolegol ym Maes Gwynedd pan dynnodd Anita ei llun o'r un lle.**

## Twll mawr


19 Mai



















## Sblat!

### TREM NEITHIWR AR DDYDDIAU 'GWELL' I'R PRYFED

**Rydyn ni gyd mae'n debyg, un ai wedi clywed son, neu gofio y 'sblat-deithiau' ers talwm pan oedd pob math o bryfed amser yma o'r flwyddyn yn sblatio ar fonet y car. Mae'r ffenomenon (er gwell i rai - ond nid i fi!) bellach wedi mynd yn brin oherwydd yn ôl y son, yr Argyfwng Natur sydd wedi dod yn amlwg ers troad y ganrif hon.**

Ond gallaf dystio o'm trap gwyfynod echnos (10 Mehefin 2023), bod gwyfynod wedi ymddangos mewn niferoedd arbennig yn y tywydd swrth, llaith a chynnes diweddar (adroddiad bach i ddod). Ac roedd neithiwr (11 Meh) rhywbeth yn debyg gan fod cymydog wedi teithio i Waunfawr o dde Cymru a chael 'sblat-daith' go iawn jest fel yr 'hen ddyddiau'. **Golygydd**

Dwi wedi sylwi bod mwy o bryfetach ar flaen y car ar ôl teithio hefyd! Arwydd bod peidio torri ymylon y ffyrdd ayb yn gwneud gwahaniaeth gobeithio! **Ann Evans**

Heipothesis gwerth roi prawf arni. Beth oedd y drefn rheolaeth ar ymylon y ffyrdd yn anterth 'oes y sblat' ganol y ganrif ddiwethaf tybed? **Golygydd**

Ffrind imi sydd yn ffarmwr o Seland Newydd wedi bod ar ei fotobeic am bythefnos drwy dir amaethyddol haidd a gwenith yn yr Almaen. Wedi synnu bod dim pryfetach o gwbwl ar ei *visor* , ond adra yn gorfod llnau splat pryfid yn aml. **Richard Paul**

Cymhariaeth effeithiol. Mae hyn yn pwyntio'r bys at y pryfed eu hunain (neu eu diffyg) yn hytrach na rhyw fath o newid aeroddeinamig yn y cerbydau ers hanner canrif (fel sydd wedi cael ei honni). Tasa chi ddim wedi son am ganfyddiad eich ffrind faswn i wedi gofyn i gymharu gwledydd mwy dihalog na rhai gorllewin Ewrop pr'un bynnag (taswn i wedi meddwl am hynny!). **Golygydd**



# Sêr Bioblitz Plas yn Rhiw 2023


Cymdeithas Edward Llwyd

BioBlitz
Plas yn Rhiw
02.06.2023 | 9:30am - 5pm



Llên natur


Teigr sgarled



Teigr sgarled



Brychan gwyrdd



Bwau llwydfelen


Blaen brigyn


Pioden fach


Gwalchwyfyn y poplys


Gwalchwyfyn yr helyglys


Gwalchwyfyn bach helyglys


Ermin wen


Ermin llwydfelen


Brithyn ymyl gymylog

Cliciwch dolen i weld y canlyniadau, a'r lluniau

BioBlitz

# Blwyddyn y blodau



Gill Brown, Foryd Caernarfon

Sylwodd nifer ohonoch cynifer o flodau oedd ar y planhigion mis Mai eleni (oherwydd haf sych y llynedd a'r gwanwyn oeraidd?). Dyma rai enghreifftiau:



Dominig Kervegant, Llanfairfechan



Luned Meredydd, Y Bala



Manon Steffan Ross, Tywyn Meirionnydd
(a Rhys Jones wedi gweld carped tebyg yng Nghaer Belan)

# Nyth del



**Mae 5 sigl-di-gwt bach yn aros am eu cinio yn fy masged o flodau yn Llidiartywaun gan Sue Hyland**


Netta Pritchard Top contributor
Gwych
Like Reply Share 2w
Tegwen Morris Top contributor
Am olygfa hyfryd - llun gwych🥰
Like Reply Share 2w
Margaret Roberts
Un o'r lluniau gorau eto. Mwy fel mae'r cywion yn tyfu os gwelwch yn dda.
Like Reply Share 2w
Sue Hyland Author Top contributor
Margaret Roberts mi wna i drio!
Like Reply Share 2w
Gwenda Jones
Llun arbennig iawn. 4
Like Reply Share 2w
Eirian Hughesbaines
Llun GWYCH!

# Y rhenciwr



Y Siderake, neu'r rhenciwr - a haf tyngedfennol 1985
Hen offer amaethyddol - Pen-Ucha'r Waun, Arfon
21 Mai 2023. Anita Myfanwy

## Sgwrs 1

**Vicon *siderake/acrobat* -** Mi ddaeth y Vicon siderake i fodolaeth tua dechra'r 50s tan tua canol y 70s. **Eilir Evans**

Dwi'n cofio eu gweld pan oeddwn yn blentyn. Diolch am y wybodaeth. **AM**

Cofio un o'r rhain yn Blaenyglyn - chwalu gwair !! **Margaret Eifiona Hewitt**

Atgofion o dad yn defnyddio un o'r rhain i chwalu gwair…. mi adewais Ysgol Dyffryn Nantlle yn 1974 felly yn y cyfnod cyn ag ar ôl hynny. **Wenna Jones Parry**

Defnyddio hwn, Vicon, wrth gwneud gwair rwan (efo Fordson Super Dexta neu Leyland). Dim byd gwell i llnau Cae yn lân. **Olwen Ford**

## Sgwrs 2

Vicon Lely *acrobat* o'dd y pedwar cribyn yn chwalu'r gwair mewn un safle wedyn ei droi i safle arall oedd yn rhesu'r gwair i fyny yn barod i'w felio. Chwalu i sychu a wedyn ei rhesu [rhencio?] i fyny - gwych o beiriant ag mor syml. Oni'n defnyddio un ar ffarm yn Llangian, gwaith haf o'r ysgol. Wrth fy modd yno. Oni'n 13 'lly 1962, gweithio yn Deuglawdd, Llangian, efo Dafydd Cefn Gwyn a dal i helpu allan dros y cynhaeaf ar ffarm gyfagos. Tractors wedi newid dipyn…

280 o geffyla dan y bonat - dipyn o wahaniaeth o Fordson Dexta yn Deuglawdd, rhyw 30 o geffyla. **John Ginger Vevar**

## Sgwrs 3

'Dach chi'n dweud felly Eilir bod cyfnod y teclyn hwn wedi dod i ben yn y 70au. Ydio felly yn declyn arbennig i drin GWAIR ac nid SULWAIR - a bod y galw amdano wedi gostwng gyda chynnydd y diwydiant sulwair? **DB**

Peiriant i hel gwair yn rhenc cyn belio, neu i gribinio yn lan. Toedd o ddim wedi cael ei wneud i drin y silwair glas a trwm yr ydym yn ei weld heddiw. **Eilir Evans**

**O ddarllen sylwadau Elwyn, John Ginger Vevar a Nerys hefyd, mae'n debyg bod y peiriant yma nid yn unig wedi peidio â bod, ond hefyd ei fod yn perthyn i ddiwedd oes y cynhaeaf gwair cyn i sulwair ei ddisodli bron yn llwyr? Cywirwch fi os ydwi'n darllen gormod i fewn i'ch sylwadau.** **Golygydd**

Mi rydych yn llygad eich lle. EE. Hollol wir …. pawb yn gneud gwair yn yr adeg yna. **JGV**

Dal i ddefnyddio Acrobat, ar y Nuffield 1965 i droi 2 wana ar wahan ac i rencio - hollol ddibynadwy dim *computer* na *hire purchase* i boeni am! **Emrys Parry**

## Sgwrs 4

Rhenciwr gwair

Peiriant troi a crybino. Wedi bod yn lwcus i ddefnyddio peiriant tebyg gyda ceffyle. **Edward Howell Jones**

Torri'r gwair, chwalu'r gwair, rhencio'r gwair yna belio'r gwair - Penllyn. **Nia Mererid Jones**

## Myfyrdodau

Haf gwlyb 1985 ddaeth â'r cynhaeaf gwair traddodiadol i ben ar lawer o ffermydd. **EE**

Mi ddylai bod haf 1985 yn cael ei weld yn *'watershed moment'* yn lle mynd yn angof i'r rhan fwyaf ohonom. **Dyma ddolen yn dangos graffiau sy'n dweud y stori (yn seiliedig ar y nifer o gyfeiriadau at 'gwair' a 'hay' yn Y Tywyddiadur fesul blwyddyn)**

Dyma Stori syml arall am ddefnydd y ddau air a'r hyn mae o'n ei ddweud wrthym (o Eiriadur Saesneg Collins):

**12. "Priddo tatws yn y bore hefo tractor a'r mochyn yn cae tan wal. Hel gwair cae crwn yn rhenciau hefo'r siderake a'r tractor a'i fydylu. Hel glanaf hefo'r delyn yn cae crwn. Torri gwair top wern ganol gyda'r nos. Hel gwartheg."**

Dyddiadur DO Jones, Padog

Llawer mwy o gofnodion (64!) yma am y siderake Llên Natur: Gwefan Natur i Bobl Cymru - Y Tywyddiadur

**1985 Y WAHANFA FAWR RHWNG GWAIR I SULWAIR**

Y flwyddyn drychinebus o wlyb honno pan ddaeth yr hen gynhaeaf GWAIR ym mis Gorffennaf ac Awst i ben, a SULWAIR - ddechrau mis Mai ymlaen i fis Medi - yn dod yn ei le. Dim syndod bod y newid hwn wedi cael effaith pell-gyrhaeddol ar ecoleg y fferm.

Mae 19 o gofnodion yn y Tywyddiadur am fis Awst 1985, 15 ohonyn nhw yn crybwyll y gair GLAW.

**Dyma i chi ffordd o 'ddweud' gan Gareth Rowlands, Môn: "Glaw golchi y car fel nyth galchan" - sef nyth bronfraith.**

# Gwanwyn y ddraenen wen

**Erioed wedi gweld sioe flodau gystal ag un eleni!! Y ddraenen wen ar ei ora!**

Bu i mi son wsnos dwytha am gyn lleied o bryfed a gwenyn oedd o amgylch yr ardd....yn ôl pob golwg roeddynt oll ar y coed drain ma... go dda. **Marc Balam**



Os yw'r ddraenan wen
Â gwallt ei phen yn gwynnu,
Mae hi'n gynnes dan y gwraidd,
Ha' dy had os mynni 🌱

Roeddwn adra (o fyw dramor) bythefnos yn ôl. Trên o Manceinion i Fetws- y Coed a rhaid dweud nad ydwi'n cofio gweld cymaint o'r ddraenen wen. Rhaid dweud hefyd bod llawer i weld ar y *'motorway'* cyn cyrraedd y stesion trên - dim ond dwy ddraenen goch welais i. **Eirian Hughes Baines**

*Never cast a clout till May is out.* **Dewi Jones**

Rhywbeth i wneud efo sychder y llynedd - ac efallai gwanwyn hwyr claear eleni. Planhigion yn 'meddwl' eu bod nhw ar drengu ac yn adweithio trwy sicrhau digon o epil. Riwbob ni wedi blodeuo am y tro cyntaf i mi gofio. Blodau'r celyn yn blastar. Pabis Cymreig yn bictiwr. Sisli bêr yn 'torri'n rhydd' ym mhob man. Llysiau Solomon y gorau a fu erioed. Mefus yn flodau toreithiog er henaint y planhigion - jam i ddod.... eto! **DB**

Ma nhw yn jest *wow* blwyddyn yma ❤️
**Helen Whitney**

Ac arogl blodau'r ddraenen wen yn 'rhywbeth arall'. Ddim yn sawr pêr fel y cyfryw, nac yn felys, ond tyfu arnoch chi ac yn mynd i'ch pen a'ch meddwi'n gaib! Postiad 'rhannu' Gillian Brown yn crisialu'r arogl yn berffaith. *'Sex and death in one place'*. Ia... hwnna dio! Darllenwch y postiad - yr arogl yn taflu cysgodion y Pla Du.

Gwglwch *trimethylamine* (un o gynhwysion arogl y blodyn):*"Trimethylamine has been described as smelling like rotten or decaying fish. As this compound builds up in the body, it causes affected people to give off a strong fishy odor in their sweat, urine, and breath. The intensity of the odor may vary over time."* **DB**

Ceisiwch ddyfalu o ba gyfeiriad mae'r prif wyntoedd yn chwythu yn y llun yma [ger cartref y Brodyr Francis]. **Iwan Williams**



Fy nghynefin!! Y ddraenen wen ystyfnig yn edliw gerwindeb y tywydd sydd i'w ddisgwyl ger Clogwyn Brwnt ar ben allt Drwsycoed ym mlaenau Dyffryn Nantlle (rhwng Nantlle a Rhyd ddu i'r anghyfarwydd!). **Hefin Williams**



**Tynais lun y goeden hon 30 mlynedd yn ôl. Mae'n siwr y bydd yn dal yno - ond pa newid ddaeth i'w ran...**
**Iwan Williams**

**Hirhoedledd y ddraenen wen:** Gwaith safonol wedi ei wneud yn Eryri pan oedd yna ecolegwyr cyflogedig yn cyhoeddi papurau gwyddonol ar bynciau o bwys am hanes cefn gwlad. Dyma un papur ar hirhoedledd y ddraenen wen yn Nant Ffrancon (mae'r prif awdur John Goode - cyn bennaeth y *CEH UK Centre for Ecology & Hydrology* ym Mangor - yn treulio ymddeoliad gogoneddus ym Mhenmaenmawr fel arbenigwr cydnabyddedig mewn garddio blodau Arctig Alpaidd. Hir oes i John (fel ei flodau Alpaidd a'i ddrain gwynion!).

# Gwanwyn y ddraenen wen



**Cofrodd fach o Norwy: pigiad gan y pryf llwyd llygaid enfys hwn**


**Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!**

Llên natur Cymdeithas Edward Llwyd **Cysylltwch gyda ni: cymuned.llennatur@gmail.com**

# Glöynnod byw yng Nghymru

*Un o bosteri* **Cymdeithas Edward Llwyd**



Glesyn cyffredin *Polyommatus icarus*



Copr bach *Lycaena phlaeas*



Llwydfelyn *Colias croceus*




Glesyn celyn *Celastrina argiolus*




Melyn y rhafnwydd *Gonepteryx rhamni*



Gweirlöyn y ddôl *Maniola jurtina*




Gweirlöyn brych *Pararge aegeria*




Gweirlöyn y glaw *Aphantopus hyperantus*




Gwyn blaen oren *Anthocharis cardamines*



Gweirloyn y perthi *Pyronia tithonus*



Mantell garpiog *Polygonia c-album*



Mantell paun *Inachis io*

Cysylltwch gyda ni: cymuned.llennatur@gmail.com

*Mae pob cofnod yn cael ei gofnodi fel y mae, mewn unrhyw iaith neu dafodiaith.*

Poster: Ifor Williams. Lluniau: Duncan Brown, Eifion Griffith, Rhys Jones, Alun Williams a Griff Williams. (Nid yw'r delweddau i raddfa)